Neges ddim yn glir? Darllenwch yr ebost ar-lein.

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

Cylchlythyr Haf - Awst 2022

Annwyl Landlord / Asiant,

Cafodd opsiynau hyfforddi Rhentu Cartref eu lansio; gweithredwch nawr i baratoi at y newidiadau deddfwriaethol sy'n fyw o 1 Rhagfyr eleni.

Mae diweddariadau eraill yn y rhifyn hwn yn cynnwys sut y gallwch:

- Ddylanwadu ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol
- Gwarantu'ch incwm rhent, gyda'r cynllun prydlesu cenedlaethol
- Dweud eich dweud am ddatgarboneiddio'r Sector Rhent Preifat; a
- Sicrhau bod eich cleientiaid landlord yn dal i gydymffurfio

---

| Rhentu Cartrefi

Rhentu Cartrefi - hyfforddiant wedi'i lansio

Mae tenantiaethau yn newid yng Nghymru o **1 Rhagfyr 2022** ac mae yna bethau y mae'n rhaid i chi eu gwybod a'u gwneud er mwyn bod yn barod.

I'ch helpu chi mae opsiynau hyfforddi 'Rhentu Cartrefi' ar gael nawr. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant ar-lein am ddim a digwyddiadau dosbarth a rithiwr am fwy o ddysgu rhyngweithiol a thywysedig.

Yr hyn fyddwch yn ei ddysgu

Nod ein cyrsiau yw rhoi trosolwg cyflawn o'r gyfraith newydd i chi, esboniad o sut y bydd cytundebau tenantiaeth yn newid, beth sydd angen eu cynnwys mewn contractau newydd a chyfrifoldebau ychwanegol fydd yn cael eu rhoi ar landlordiaid a thenantiaid.

Er y bydd llawer o'ch ymarfer busnes yn aros heb newid i raddau helaeth, mae canlyniadau sylweddol o gael pethau'n anghywir, gan gynnwys cosbau ariannol. Mae o fudd i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n deall ac yn paratoi at y newidiadau sy'n dod, mewn da bryd.

Hyfforddiant Dosbarth / Rhithiwr Rhentu Cartrefi

Wedi'u cyflwyno gan arbenigwyr yn y diwydiant, mae ein dyddiadau dosbarth a rhithwir sydd ar ddod yn cynnwys:

Dydd Mawrth 23 Awst 2022 – Village Hotel Caerdydd
Dydd Mercher 31 Awst 2022 – MRC Llandrindod
Dydd Mercher 31 Awst 2022 - Cwrs Ystafell Rithiwr (Ar-lein)

Archebu lle - Caerdydd | Archebu lle - Llandrindod | Archebu lle - Ystafell Rithiwr

Hyfforddiant Ar-lein

Ar gyfer dysgu hunan-dywys, archebwch eich hyfforddiant am ddim ar-lein yma.

Archebu hyfforddiant ar-lein

| Lwfans Tai Lleol

Gwnewch wahaniaeth - dylanwadu ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol

Mae Swyddogion Rhent Cymru, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru, yn cynnal ymchwil i'r farchnad ar y sector rhentu preifat i helpu i bennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol a phrisiadau budd-dal Tai.

Er mwyn sicrhau bod y cyfrifiadau hyn yn adlewyrchu'n gywir yr hyn sy'n digwydd yn y farchnad dai, maent yn gofyn i chi ddarparu Gwybodaeth gyfoes am eich gosodiadau. Drwy wneud hyn byddwch yn sicrhau bod newidiadau diweddar yn y farchnad yn cael eu hystyried pan fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gosod y lefelau.

Mae angen eich mewnbwn

Gallwch helpu drwy lenwi'r ffurflen wybodaeth am osodiadau a geir yma. Dylid

dychwelyd y ffurflenni wedi'u llenwi i:
RentOfficersLettingsResearch@wales.gsi.gov.uk

Nid yw gwybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi i Swyddogion Rhent Cymru yn cael ei rhannu gydag unrhyw drydydd parti arall, er bod gwybodaeth gosodiadau dienw yn cael ei rhannu gyda Swyddfa'r Ystadegau Gwladol i'w cynorthwyo i gyfrifo'r newidiadau i gostau rhent o fewn y sector preifat (Mynegai Prisiau Rhentu Tai Preifat, DU). Gallwch weld eu datganiad preifatrwydd yma.

Am unrhyw ymholiadau pellach cysylltwch â rentofficerhelpdesk@gov.wales neu ffoniwch 0300 062 5108.

Cwblhau'r ffurflen

| Cyfleoedd Prydlesu

Gwartu eich incwm rhent - Cynllun Prydlesu Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â phymtheg awdurdod lleol, wedi lansio cynllun prydlesu cenedlaethol.

Mae Cynllun Lesio Cymru yn cynnig incwm rhent gwarantedig i landlordiaid am rhwng pum ac ugain mlynedd. Yn ogystal, mae grantiau heb fod yn ad-daladwy ar gael i ddod ag eiddo hyd at safon y cytunwyd arni, neu i gwrdd â sgôr 'C' TPY.

Yr awdurdod lleol sy'n rheoli'r eiddo'n llawn, ac mae hyn yn cynnwys yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw ar gyfer cyfnod y brydles. Mae awdurdodau lleol hefyd yn darparu gwasanaeth rheoli a chefnogi tenantiaeth lawn.

I ddysgu mwy, cliciwch yma.

Dysgwch fwy

| Effeithlonrwydd Ynni

Dweud eich dweud am ddatgarboneiddio

Hoffai Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd ac Isadeiledd Llywodraeth Cymru glywed eich barn am ddatgarboneiddio'r sector tai preifat.

Mae'r ymchwiliad yn adeiladu ar y dystiolaeth sydd eisoes wedi ei dderbyn gan randdeiliaid yn ystod cyfnod un. Nawr, mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y sector tai preifat (h.y. y sectorau rhent preifat a pherchen-feddianwyr). Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad wedi'i gynnwys yn y ddolen hon yma.

Sut i rhannu eich dweud

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan yr ymgynghoriad yma. Y dyddiad cau ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig yw **dydd Llun 22 Awst 2022.**

Cymerwch ran

| Diweddariad ar gyfer asiantau gosod



A yw eich cleientiaid landlord yn dal i gydymffurfio?

Mae gan Rhentu Doeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol i hysbysu asiantau pan nad yw cleient sy'n landlord wedi adnewyddu eu cofrestriad landlord. Y ffordd orau o wneud hyn yw rhoi'r gallu i chi weld statws cofrestriadau landlordiaid yn eich cyfrif Rhentu Doeth Cymru. Mae'r opsiwn hwn yn lleihau'r baich gweinyddol arnoch chi hefyd.

I weld y wybodaeth hon, dilynwch y camau isod:

- Mewngofnodwch i'ch cyfrif Rhentu Doeth Cymru
- Ewch i'ch **proffil Asiant**
- Cliciwch ar eich tab **'Eiddo Rhent a Reolir yng Nghymru'**
- Bydd y tabl **'Eiddo Cysylltiedig Presennol'** yn dangos dyddiadau dod i ben eich cofrestriadau landlord
- Gallwch ddidoli'r tabl i ddangos y cofrestriadau sy'n dod i ben yn gyntaf trwy ddewis **'Cofrestriadau'r Dod i Ben mewn Trefn Esgynnol'** o'r gwymplen uwchben y tabl

Mae'r golofn 'Cofrestriad yn Dod i Ben' yn dangos y dyddiad y bydd cofrestriad y landlord yn dod i ben. Mae cofrestriadau landlordiaid yn cael eu dirymu 28 diwrnod ar ôl iddynt ddod i ben oni bai bod y landlord yn adnewyddu'r cofrestriad neu'n apelio yn erbyn y dirymiad.

Cofiwch fod gennych rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod eich

landlordiaid a'u heiddo wedi'u cofrestru. Mae hwn yn gyfrifoldeb sydd wedi ei nodi yn amodau eich trwydded.

Gwirio dyddiadau dod i ben

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Copyright © 2015-2022

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Blwch PO / PO Box 1106 Caerdydd /
Cardiff CF11 1UA

rhentudoeth.llyw.cymru
rentsmart.gov.uk

Rhentu Doeth Cymru Rent Smart Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government